# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**SLC(3) 01-07 (p1): 26 Mehefin 2007**

**Teitl:** Gwaith y Pwyllgor yn y Trydydd Cynulliad

**Diben**

1. Diben y papur hwn yw i ystyried sut y gall y Pwyllgor ddewis gweithio yn y Trydydd Cynulliad.

**Cefndir**

2. Mae Rheol Sefydlog 15.1 yn cynnwys darpariaeth sy’n nodi y bydd Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth. Mae materion cyffredinol sy’n gymwys i bob un o’r pwyllgorau wedi’u cynnwys yn Rheol Sefydlog 10.

3. Er hwylustod i Aelodau, mae’r Rheolau Sefydlog a nodir uchod wedi’u hatodi yn Atodiadau A a B.

4. Mae cylch gwaith y Pwyllgor wedi’i amlinellu yn Rheolau Sefydlog 15.2 i 15.7.

5. Cynhyrchwyd adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau blaenorol, sef ‘Craffu Technegol ar Ddeddfwriaeth y Cynulliad Cenedlaethol o fis Mai 2007 ymlaen’. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn fel tystiolaeth i’r Pwyllgor Rheolau Sefydlog ac yr oedd yn sail i’r Rheolau Sefydlog sy’n llywodraethu’r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth newydd.

6. Bydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn ystyried yr agweddau technegol ar bob offeryn statudol neu offeryn statudol drafft a wneir, neu sydd i’w wneud, gan Weinidogion Cymru. Gall hefyd ymgymryd â gwaith craffu cyfyngedig ar bolisi Mesurau Cynulliad; er enghraifft, i benderfynu a ydyw darpariaethau sy’n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth yn addas ai peidio. Serch hynny, ni all y Pwyllgor gwestiynu’r polisi ei hun.

7. Bydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn craffu ar is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y gweithdrefnau negyddol a’r gweithdrefnau cadarnhaol; gweler y nodyn esboniadol yn Atodiad C.

8. Yn achos offeryn sy’n ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol, mae adran 6 o’r Ddeddf Offerynnau Statudol yn cynnwys darpariaeth sy’n nodi na chaiff mo’i wneud tan ar ôl 40 niwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y caiff copi o’r offeryn drafft ei osod gerbron y Cynulliad. Os bydd y Cynulliad yn penderfynu, yn ystod y cyfnod o 40 niwrnod, na fydd yr offeryn yn cael ei wneud, ni chymerir unrhyw gamau pellach yn ei gylch.

9. Yng nghyswllt offerynnau a gaiff eu gwneud drwy ddefnyddio'r weithdrefn negyddol (offerynnau y gellir eu dirymu), rhaid gosod y rhain gerbron y Cynulliad a bydd cyfnod o 40 niwrnod ar gael i gyflwyno cynnig i'w dirymu. Os bydd y Cynulliad yn penderfynu, yn ystod y cyfnod o 40 niwrnod, y dylid dirymu'r offeryn, ni chymerir unrhyw gamau pellach yn ei gylch a bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i ddirymu'r offeryn drwy orchymyn.

**Swyddogaethau Gorfodol**

10. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ystyried yr holl offerynnau statudol a'r offerynnau statudol drafft a osodir gerbron y Cynulliad gan gyflwyno adroddiad yn nodi a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offeryn neu'r drafft ar sail unrhyw resymau a restrir yn Rheol Sefydlog 15.2.

11. Bydd yr holl offerynnau a'r offerynnau drafft y bydd angen i'r Pwyllgor eu hystyried yn cael eu gweld ymlaen llaw gan Gynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor. Bydd y Cynghorwyr hyn yn paratoi cyngor i'r Pwyllgor gan nodi'r materion sy'n codi o dan Reol Sefydlog 15.2, a gall y Pwyllgor drafod y rhain ymhellach os dyna'i ddymuniad. Os na chaiff unrhyw bwyntiau eu nodi o dan Reol Sefydlog 15.2 caiff yr offeryn ei gynnwys fel eitem ar yr agenda.

**Swyddogaethau Dewisol**

12. At hyn, gall y Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y materion a nodir yn Rheolau Sefydlog 15.3 neu 15.6.

13. Rhaid cyflwyno unrhyw adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 neu 15.3 cyn pen 20 niwrnod ar ôl i'r offeryn neu'r drafft gael ei osod gerbron y Cynulliad.

14. Ni fydd y Cynghorwyr Cyfreithiol, o reidrwydd, yn cyflwyno adroddiad ar faterion sy'n codi o dan Reolau Sefydlog 15.3 neu 15.6. Gall aelodau'r Pwyllgor godi materion sy'n codi o dan y Rheolau Sefydlog hyn; a gall Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor neu'r Cynghorwyr Cyfreithiol godi rhai pwyntiau technegol neu egluro'r sefyllfa gyfreithiol fel y bo'n briodol. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru ofyn i swyddog fod yn bresennol er mwyn medru gofyn am eglurhad ynghylch y sefyllfa swyddogol ar y materion hyn. Gall y Pwyllgor hefyd wahodd unrhyw Weinidogion/swyddogion/cynghorwyr arbenigol i ddod i gyfarfodydd, er mwyn cynorthwyo'r Aelodau â'u gwaith.

15. Yn ogystal â chraffu'n dechnegol ar is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion y Cynlluniad o dan Reolau Sefydlog 15.2 ac 15.3, gall y Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 15.6, ystyried materion amrywiol gan gynnwys pa mor briodol yw darpariaethau Mesurau Cynulliad neu Fesurau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol wneud is-ddeddfwriaeth - Rheol Sefydlog 15.6(ii) - a'r canlyniadau ar gyfer deddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i ystyriaeth y Cynulliad o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaeth a Rheoliadau 2006 - Rheol Sefydlog 15.6(iii).

16. Yn ogystal â hyn, gall y Pwyllgor ystyried unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru - Rheol Sefydlog 15.6(iv). Gallai hyn gynnwys materion yn ymwneud â drafftio deddfwriaeth a all ddod i sylw'r Pwyllgor yn gyson.

17. Ni chaiff y Pwyllgor ystyried unrhyw orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft nac unrhyw offeryn statudol y mae'n ofynnol ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig - Rheol Sefydlog 15.7.

**Gwaith Craidd**

18. Prif waith y Pwyllgor fydd craffu'n statudol a thechnegol ar is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru. Bydd mwyafrif yr is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i'r gweithdrefn penderfyniad negyddol neu gadarnhaol; ond yr un blaenorol yn bennaf.

**Gwaith Arall**

19. Ymdrinnir â'r materion y sonnir amdanynt ym mharagraffau 12, 15 ac 16 yn ôl disgresiwn y Pwyllgor. Gallai llawer o'r camau hyn effeithio'n sylweddol ar weithrediad y Pwyllgor; o safbwynt amlder a hyd cyfarfodydd a lefel y cymorth ychwanegol y bydd ei hangen.

**Amlder a Hyd Cyfarfodydd**

20. Byddai'r Pwyllgor blaenorol yn cyfarfod bob wythnos. Cyfarfodydd byr fyddai'r rhain, llai na hanner awr fel arfer, gan ddibynnu ar nifer y materion a godwyd gan y cynghorwyr cyfreithiol neu gan yr Aelodau. Gan ddibynnu ar faint o'r materion ychwanegol hyn y mae'r Pwyllgor yn penderfynu eu trafod, mae'n bosibl y bydd angen ymestyn y cyfarfodydd. I ddechrau, awgrymir y dylai'r Pwyllgor gyfarfod bob wythnos.

**Cymorth Mewnol**

21. Bydd Cynghorwyr Cyfreithiol yn cynorthwyo'r Pwyllgor gyda'r gwaith craffu technegol, a byddant yn paratoi cyngor ar faterion o dan Reol Sefydlog 15.2. Bydd y Clerc yn rhoi cyngor ar weithdrefnau, yn paratoi adroddiadau ac yn ymdrin â materion gweinyddol cyffredinol. Gan ddibynnu ar natur unrhyw waith ychwanegol y bydd y Pwyllgor yn penderfynu ymgymryd ag ef, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o gymorth gan y Gwasanaeth Ymchwil; er enghraifft, gallai ymchwilwyr roi gwybodaeth am yr amcanion polisi y tu ôl i eitem benodol o is-ddeddfwriaeth.

**Cymorth Allanol**

22. Gan ddibynnu ar natur unrhyw waith ychwanegol y bydd y Pwyllgor yn penderfynu ymgymryd ag ef, mae'n bosibl y bydd angen cymorth allanol; er enghraifft, gellid penodi cynghorydd arbenigol i roi cyngor arbenigol ynghylch

materion polisi, neu gallai'r Pwyllgor ofyn am farn cyrff perthnasol yn y sector gwirfoddol.

**Perthynas â Phwyllgorau Eraill**

23. Cyn gynted ag y bydd y Pwyllgor wedi penderfynu ar ei raglen waith, byddai'n ddefnyddiol ystyried sut y gallai weithio gyda phwyllgorau eraill; er enghraifft:

- Cytuno ar brotocol ynghyd â'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i sicrhau bod is-ddeddfwriaeth yn rhoi deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar waith yn briodol – Rheol Sefydlog 15.3(iv).
- Cymryd tystiolaeth gan bwyllgor craffu, wrth ystyried a yw eitem o is-ddeddfwriaeth yn gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith ai peidio – Rheol Sefydlog 15.3(v).
- Rhoi cyngor i bwyllgor mesurau ynghylch pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol wneud is-ddeddfwriaeth – Rheol Sefydlog 15.6(ii).

**Camau i'r Cymryd**

24. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y materion a ddisgrifir yn y papur hwn; yn enwedig y gwaith dewisol y sonnir amdanynt ym mharagraffau 12, 15 ac 16 – ac i benderfynu ar ba gamau, os o gwbl, y mae'n dymuno eu cymryd.

**Chris Reading**
**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Mehefin 2007**

**Atodiad A**

## RHEOL SEFYDLOG 10 − Pwyllgorau

### Cyffredinol

10.1 Mae Rheol Sefydlog 10 yn gymwys i bob un o bwyllgorau'r Cynulliad heblaw pan fydd wedi'i datgymhwyso gan Reol Sefydlog arall.

10.2 Caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig i roi cyfarwyddiadau penodol neu gyffredinol i unrhyw bwyllgor.

### Aelodaeth Pwyllgorau

10.3 Rhaid i'r Cynulliad ystyried cynnig a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes i bennu aelodaeth pob pwyllgor a sefydlir gan unrhyw Reol Sefydlog neu drwy benderfyniad gan y Cynulliad.

10.4 Ni chaniateir cyflwyno gwelliannau i gynnig o dan Reol Sefydlog 10.3 .

10.5 Ni chaniateir i gynnig i bennu aelodaeth pwyllgor o dan Reol Sefydlog 10.3 gael ei basio oni bai:

(i) bod yr aelodaeth (cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol) yn adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol y mae'r Aelodau yn perthyn iddynt; a

(ii) (os caiff y cynnig ei basio drwy bleidlais), bod o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio yn ei gefnogi.

10.6 Os nad yw cynnig i bennu aelodaeth pwyllgor o dan Reol Sefydlog 10.3 yn cael ei basio:

(i) rhaid i'r Cynulliad ystyried cynnig a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes i bennu maint y pwyllgor; a

(ii) rhaid i'r lleoedd ar y pwyllgor hwnnw gael eu dyrannu yn unol â gweithredu adran 29(3) i (7) o'r Ddeddf fel y'i diwygiwyd yn unol â Rheol Sefydlog 10.7.

10.7 Mewn perthynas ag unrhyw le sydd i'w ddyrannu ar bwyllgor yn unol ag adran 29(3) i (7) o'r Ddeddf:

(i) os yw nifer yr Aelodau sy'n perthyn i ddau neu fwy o grwpiau gwleidyddol yr un fath a'i fod yn fwy na'r nifer sy'n perthyn i unrhyw grŵp gwleidyddol arall; neu

(ii) os yw'r nifer a geir drwy ddefnyddio adran 29(6) o'r Ddeddf yr un fath ar gyfer dau neu fwy o grwpiau gwleidyddol a'i fod yn fwy na'r nifer a geir fel hyn ar gyfer unrhyw grŵp gwleidyddol arall,

Rhaid i’r Llywydd benderfynu i ba grŵp gwleidyddol y mae’r lle hwnnw i’w ddyrannu.

10.8 Os yw’r lleoedd ar unrhyw bwyllgor i’w dyrannu i grŵp gwleidyddol yn unol â Rheol Sefydlog 10.3 neu 10.6, mater i arweinydd y grŵp gwleidyddol hwnnw yw pennu enwau’r Aelodau a ddyrennir o’i grŵp.

10.9 Rhaid i unrhyw gynnig o dan Reol Sefydlog 10.3 neu 10.6 (cyn belled ag y bo’n rhesymol ymarferol, o roi sylw i gyfanswm y lleoedd ar bwyllgorau) sicrhau:

(i) bod pob Aelod nad yw’n perthyn i grŵp gwleidyddol yn cael cynnig lle ar un pwyllgor o leiaf; a

(ii) bod cyfanswm y lleoedd ar bwyllgorau a ddyrennir i aelodau sy’n perthyn i bob grŵp gwleidyddol o leiaf yr un mor fawr â nifer yr Aelodau sy’n perthyn i’r grŵp gwleidyddol.

10.10 Mae swydd wag yn codi ar bwyllgor pan fydd Aelod:

(i) yn ymddiswyddo o’r pwyllgor drwy hysbysu’r Pwyllgor Busnes;

(ii) yn cael ei ddiswyddo o’r pwyllgor drwy benderfyniad gan y Cynulliad;

(iii) yn peidio â bod yn Aelod; neu

(iv) yn peidio â bod yn aelod o’r pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 10.11.

10.11 Mae Aelod yn peidio â bod yn aelod o bwyllgor os yw’n ymuno â grŵp gwleidyddol neu’n ymadael ag ef.

10.12 Pan fydd swydd wag yn codi ar bwyllgor, mae’r Pwyllgor Busnes:

(i) yn gorfod ystyried effaith y swydd wag honno ar aelodaeth y pwyllgor hwnnw ac unrhyw bwyllgor arall;

(ii) o roi sylw i’r ystyriaeth honno, yn gorfod cyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 10.3 i gynnig aelodaeth y pwyllgor y cododd y swydd wag arno; a

(iii) o roi sylw i’r ystyriaeth honno, yn cael cyflwyno hefyd un neu fwy o gynigion o dan Reol Sefydlog 10.3 i gynnig aelodaeth unrhyw bwyllgor arall.

10.13 Os llenwi’r swydd wag ag Aelod o’r un grŵp gwleidyddol yw unig effaith cynnig y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 10.12(ii), yna nid yw Rheol Sefydlog 10.5(ii) yn gymwys.

10.14 Rhaid i unrhyw gwestiwn sy'n codi o dan Reolau Sefydlog 10.5 a 10.9 gael ei benderfynu gan y Llywydd.

**Is-bwyllgorau**

10.15 Caiff unrhyw bwyllgor benderfynu sefydlu un neu fwy o is-bwyllgorau. Rhaid i benderfyniad i sefydlu is-bwyllgor nodi ei aelodaeth, ei gylch gorchwyl a'i barhad.

10.16 Ni chaiff yr un is-bwyllgor gynnwys dim ond Aelodau o'r grŵp neu'r grwpiau gwleidyddol sydd â rôl weithredol a rhaid i bob is-bwyllgor gynnwys o leiaf un Aelod o grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol.

10.17 Mae is-bwyllgor yn cael ei reoleiddio, fel y bo'n briodol, gan y Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â'r pwyllgor y mae'n is-bwyllgor iddo.

**Cadeiryddion**

10.18 Rhaid i bob pwyllgor ethol cadeirydd. Wrth wneud hynny, rhaid i'r pwyllgor roi sylw i'r angen i sicrhau bod cydbwysedd y cadeiryddion ar draws y pwyllgorau yn adlewyrchu'r grwpiau gwleidyddol y mae'r Aelodau yn perthyn iddynt.

10. 19 Mae gan bob pwyllgor y pŵer i benodi cadeirydd dros dro yn absenoldeb cadeirydd y pwyllgor.

10.20 Ac eithrio lle mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu fel arall, rhaid i gadeirydd pwyllgor benderfynu ar weithdrefnau'r pwyllgor, gan roi sylw i unrhyw ganllawiau ysgrifenedig a all gael eu cyhoeddi gan y Llywydd ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes a chadeiryddion y pwyllgorau.

10.21 O ran busnes is-bwyllgor, mae gan gadeirydd yr is-bwyllgor bwerau cadeirydd y pwyllgor y mae'n is-bwyllgor iddo.

**Ymddygiad mewn Pwyllgorau**

10.22 Rhaid i'r cadeirydd gadw trefn mewn cyfarfodydd pwyllgor a rhaid galw i drefn unrhyw Aelod:

(i) sy'n ymddwyn mewn ffordd a fyddai, ym marn y cadeirydd, yn gyfystyr â thramgwydd troseddol neu ddirmyg llys;

(ii) sy'n rhwystro busnes y Cynulliad;

(iii) sy'n ceisio codi mater sydd y tu hwnt i gwmpas y mater sydd gerbron y pwyllgor;

(iv) sy'n euog o ymddygiad anghwrtais neu amhriodol;

(v) sy'n defnyddio iaith sy'n groes i’r drefn, iaith sy'n gwahaniaethu neu sy'n peri tramgwydd, neu iaith sy'n amharu ar urddas y Cynulliad;

(vi) sy'n gwrthod cydymffurfio ag unrhyw Reol Sefydlog neu ag unrhyw ofyniad arall ynglŷn ag ymddygiad Aelodau; neu

(vii) sy'n anwybyddu awdurdod y cadeirydd.

10.23 Rhaid i Aelod gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y cadeirydd ynghylch unrhyw ymddygiad sydd wedi peri ei alw i drefn.

10.24 Caiff y cadeirydd ei gwneud yn ofynnol i Aelod ymneilltuo o weddill y cyfarfod os yw’r cadeirydd o’r farn bod yr ymddygiad yn cyfiawnhau ymneilltuo. Os bydd Aelod yn gwrthod ymneilltuo pan ofynnir iddo wneud hynny, caiff y cadeirydd ohirio’r cyfarfod a chyflwyno adroddiad am y mater i’r Llywydd; ac, wedi sicrhau caniatâd y Llywydd ymlaen llaw, caiff Aelod gynnig bod yr Aelod hwnnw’n cael ei wahardd o drafodion y Cynulliad am gyfnod yn unol â Rheol Sefydlog 8.13.

10.25 Os bydd anhrefn difrifol yn codi mewn cyfarfodydd pwyllgor, neu o dan unrhyw amgylchiad arall lle bydd y cadeirydd yn credu bod hynny’n briodol, caiff y cadeirydd ohirio cyfarfod neu atal y cyfarfod am gyfnod penodedig.

**Sub judice**

10.26 Yn ddarostyngedig i hawl y Cynulliad i ddeddfu ar unrhyw fater neu i drafod is-ddeddfwriaeth, rhaid i Aelod beidio â chodi unrhyw fater na mynd ar drywydd unrhyw fater mewn cyfarfodydd pwyllgor os bydd achos llys wedi’i gychwyn, neu os bydd hysbysiad apêl wedi’i roi yn y Deyrnas Unedig, neu os bydd Comisiynydd Plant Cymru neu Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi penderfynu cynnal archwiliad o achos, tan yr adeg pan fydd dyfarniad wedi’i roi neu pan fydd adroddiad wedi’i wneud gan y naill Gomisiynydd neu’r llall, oni bai bod y cadeirydd yn fodlon:

(i) bod gan y mater berthynas glir â mater o bwys cyhoeddus cyffredinol neu fod penderfyniad gan un o’r Gweinidogion o dan sylw;

(ii) nad yw’r mater yn ymwneud ag achos sydd i’w wrando, neu sy’n cael ei wrando, gerbron llys troseddau neu gerbron rheithgor neu ag achos sydd i’w wrando, neu sy’n cael ei wrando, mewn achos teuluol;

(iii) nad yw’r Aelod, yn ei sylwadau, yn creu risg real a

sylweddol o ragfarnu achos llys, naill ai'n gyffredinol neu mewn perthynas ag achos penodol.

**Cysylltiadau â'r Farnwriaeth**

10.27 Oni bai bod y mater yn destun cynnig gwreiddiol, rhaid i'r Aelodau beidio, mewn cyfarfodydd pwyllgor, â beirniadu ymddygiad barnwyr llysoedd y Deyrnas Unedig wrth iddynt gyflawni eu swyddogaeth farnwrol; ac yn Rheol Sefydlog 10.27 mae "barnwr" yn cynnwys personau sy'n dal swydd barnwr, yn amser llawn ynteu'n rhan-amser.

10.28 Rhaid i bwyllgorau beidio â thrafod penodiadau barnwrol unigol.

**Cworwm**

10.29 Rhaid datgan nad oes cworwm i gyfarfod pwyllgor os bydd llai na thri Aelod neu lai na thraean o nifer aelodau'r pwyllgor, p'un bynnag yw'r mwyaf, yn bresennol.

10.30 Rhaid datgan nad oes cworwm i gyfarfod pwyllgor os un grŵp gwleidyddol yn unig a gynrychiolir gan yr Aelodau sy'n bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

10.31 Wrth ddatgan nad oes cworwm i gyfarfod o dan Reol Sefydlog 10.29 neu 10.30, rhaid i'r cadeirydd neu, yn absenoldeb y cadeirydd, rhaid i glerc y pwyllgor, atal y cyfarfod nes bod cworwm yn bresennol. Ond os nad oes cworwm yn bresennol cyn pen 20 munud, bydd y cyfarfod yn parhau i fod wedi'i ohirio.

**Pleidleisio**

10.32 Pleidleisir mewn pwyllgorau drwy godi dwylo, a phan fydd unrhyw un o aelodau'r pwyllgor yn gofyn i'r bleidlais gael ei chofnodi, rhaid i enwau'r rhai sy'n pleidleisio (gan gynnwys y rhai sy'n ymatal) gael eu cofnodi yng nghofnodion trafodion y pwyllgor.

10.33 Caiff cadeiryddion pwyllgorau bleidleisio. Os bydd nifer y pleidleisiau yn gyfartal, rhaid i'r cadeirydd ddyfarnu ynglŷn â chwblhau'r busnes yn unol â Rheol Sefydlog 2.20.

10.34 Ni fydd yr un bleidlais mewn unrhyw bwyllgor yn ddilys os bydd llai na thraean o'i aelodau wedi pleidleisio. Rhaid ystyried bod aelodau sy'n ymatal wedi pleidleisio.

10.35 Os nad yw pleidlais yn ddilys o dan Reol Sefydlog 10.34, rhaid i'r cadeirydd ohirio'r eitem o fusnes yr oedd yn rhan ohoni tan gyfarfod nesaf y pwyllgor.

**Natur Agored y Pwyllgorau**

10.36 Yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog 10.37 ac 11.9, rhaid i bwyllgorau

gyfarfod yn gyhoeddus, a rhaid caniatáu mynediad ar gyfer darlledu cyfarfodydd cyhoeddus yn unol â'r trefniadau y bydd y Comisiwn yn cytuno arnynt o bryd i'w gilydd.

10.37 Caiff pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:

(i) lle mae cysylltiadau rhyngwladol, diogelwch gwladol, ymchwiliad i anghyfreithlondeb honedig, effeithiolrwydd gwaith gorfodi'r gyfraith neu weinyddu cyfiawnder yn briodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r trafodion gael eu cynnal yn breifat;

(ii) lle nad oes modd trafod eitem benodol o fusnes heb ddatgelu gwybodaeth bersonol ynglŷn ag unigolion penodol sydd wedi'u hadnabod neu y gellir eu hadnabod ac na ddylid ei datgelu;

(iii) lle byddai trafod eitem benodol o fusnes yn gyhoeddus yn debyg o achosi niwed i fuddiannau masnachol neu economaidd;

(iv) lle byddai trafod eitem benodol o fusnes yn gyhoeddus yn debyg o achosi niwed i iechyd neu ddiogelwch unigolyn, y cyhoedd, neu'r amgylchedd;

(v) lle nad oes modd trafod eitem benodol o fusnes heb gyfeirio at ddeunydd a fyddai, yn ôl pob tebyg, yn cael ei ystyried yn ddeunydd sy'n difenwi unrhyw berson;

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson;

(vii) lle nad oes modd trafod eitem benodol o fusnes heb ddatgelu naill ai cyngor cyfreithiol a roddwyd yn gyfrinachol, neu wybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol gan berson neu gorff (gan gynnwys awdurdod cyhoeddus) neu mewn gohebiaeth gyfrinachol ag ef nad oedd o dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu'r wybodaeth honno ac nad yw wedi cydsynio i'w datgelu i'r cyhoedd;

(viii) lle nad oes modd trafod eitem benodol o fusnes heb gyfeirio at ddogfen neu ddogfennau a gâi eu gwahardd neu eu hesemptio rhag cael eu datgelu o dan ddeddfwriaeth; neu

(ix) lle mae unrhyw fater sy'n ymwneud â busnes mewnol y pwyllgor, neu fusnes mewnol y Cynulliad, i gael ei drafod.

10.38 Rhaid i gynnig a wneir o dan Reol Sefydlog 10.37 nodi ar ba sail y mae'r Aelod sy'n ei wneud yn credu y dylai arwain at wahardd y cyhoedd.

10.39 Cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, rhaid trefnu bod hysbysiadau ynglŷn â chynigion a dogfennau sy'n ymwneud â busnes y bwriedir ymdrin ag ef mewn unrhyw bwyllgor ar gael i holl aelodau'r pwyllgor hwnnw yn Gymraeg a Saesneg o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod y maent yn berthnasol iddo.

10.40 Caiff aelodau pwyllgorau a phersonau eraill sy'n annerch pwyllgorau, siarad Cymraeg neu Saesneg a rhaid bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer trafodion Cymraeg. Caiff personau heblaw Aelodau annerch pwyllgorau mewn ieithoedd eraill drwy gytuno ymlaen llaw gyda'r cadeirydd.

**Cyfarfodydd**

10.41 Ar ôl ymgynghori â'r Llywydd, caiff cadeirydd pwyllgor alw cyfarfod o'r pwyllgor mewn wythnos nad yw'n wythnos eistedd.

**Dirprwyon mewn Cyfarfodydd**

10.42 Caniateir i aelod o bwyllgor sydd wedi rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r cadeirydd gael ei gynrychioli mewn cyfarfod, neu ran o gyfarfod, gan Aelod arall o'r un grŵp gwleidyddol sydd wedi'i enwi ymlaen llaw. Caiff y cynrychiolydd a enwebwyd gymryd rhan yng nghyfarfod y pwyllgor ym mhob ffordd fel pe bai'n aelod ohono. Ni chaniateir i Aelod gynrychioli mwy nag un aelod o bwyllgor mewn cyfarfod.

**Presenoldeb mewn Cyfarfodydd**

10.43 Gyda chaniatâd y cadeirydd, caiff Aelodau nad ydynt yn aelodau o bwyllgor gymryd rhan mewn cyfarfod pwyllgor ond ni chânt bleidleisio.

10.44 Caiff pwyllgorau wahodd unrhyw berson i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd er mwyn rhoi tystiolaeth, neu roi cyngor a chânt wahodd unrhyw berson neu gorff o'r fath i gyflwyno tystiolaeth a dangos dogfennau.

10.45 Yn ddarostyngedig i adrannau 38 a 40 o'r Ddeddf, caiff unrhyw bwyllgor arfer y pwerau yn adran 37 o'r Ddeddf, i'w gwneud yn ofynnol i bersonau fod yn bresennol yn eu trafodion neu ddangos dogfennau.

10.46 Caiff cadeiryddion ei gwneud yn ofynnol i berson y gofynnwyd iddo fod yn bresennol mewn pwyllgor dyngu llw (neu roi cadarnhad), sydd

i'w weinyddu gan glerc y pwyllgor.

**Cyfarfodydd â Phwyllgorau Eraill**

10.47 Caiff pwyllgorau gyfarfod ar y cyd â phwyllgorau eraill y Cynulliad.

10.48 Caiff pwyllgorau gyfarfod ar y cyd ag unrhyw bwyllgor i'r naill Dŷ neu'r llall yn Senedd y Deyrnas Unedig neu ag unrhyw gyd-bwyllgor i'r ddau Dŷ.

**Cynghorwyr Pwyllgorau**

10.49 Caiff pwyllgorau benodi cynghorwyr yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn er mwyn iddynt roi cyngor arbenigol.

**Adroddiadau Pwyllgorau**

10.50 Caiff unrhyw bwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar faterion o fewn ei gylch gorchwyl.

**Parhad Pwyllgorau**

10.51 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 12.3, rhaid i bwyllgorau a sefydlir gan Reolau Sefydlog 11 i 19 gael eu sefydlu i barhau drwy gydol y Cynulliad.

10.52 Rhaid i'r Cynulliad, drwy gynnig a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes, benderfynu pa mor hir y bydd unrhyw bwyllgor arall yn parhau.

**Atodiad B**

**RHEOL SEFYDLOG 15 — Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

15.1 Bydd Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.

15.2 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 15.7, rhaid i'r Pwyllgor ystyried pob offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad a chyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offeryn neu'r drafft ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

(i) ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw *intra vires*;

(ii) ei bod yn ymddangos ei fod yn gwneud defnydd anarferoL neu annisgwyl ar y pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano;

(iii) bod y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i'w wneud yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n ei eithrio rhag cael ei herio yn y llysoedd;

(iv) ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn;

(v) bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol;

(vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol;

(vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft;

(viii) bod yr offeryn neu'r drafft yn defnyddio iaith rywbenodol;

(ix) nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg;

(x) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth ei gyhoeddi neu wrth ei osod gerbron y Cynulliad; neu

(xi) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth anfon hysbysiad o dan adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, (fel y'i haddaswyd).

15.3 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 15.7, caiff y Pwyllgor ystyried a

chyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

(i) ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath;

(ii) ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad;

(iii) ei fod yn amhriodol oherwydd newid yn yr amgylchiadau ers i'r deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano gael ei basio neu ei wneud ei hun;

(iv) ei fod yn rhoi deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar waith yn amhriodol; neu

(v) nad yw'n gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith.

15.4 Rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno unrhyw adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 neu 15.3 mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft heb fod yn fwy nag 20 diwrnod ar ôl i'r offeryn neu'r drafft gael ei osod.

15.5 Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o ddyddiau at ddibenion Rheol Sefydlog 15.4, rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw amser pryd y bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

15.6 Yn ddarostyngedig i 15.7, caiff y Pwyllgor ystyried y canlynol hefyd a chyflwyno adroddiadau arnynt:

(i) unrhyw is-ddeddfwriaeth arall a osodir gerbron y Cynulliad;

(ii) pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ac mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud isddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol;

(iii) canlyniadau gorchmynion drafft o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaeth a Rheoliadau 2006 ar gyfer deddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i ystyriaeth yn y

Cynulliad;

(iv) defnydd Gweinidogion Cymru ar bwerau cychwyn; neu

(v) unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru.

15.7 Ni chaiff y Pwyllgor ystyried:

(i) unrhyw orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft; na

(ii) unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae'n ofynnol ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig.

**Atodiad C**

# Y Weithdrefn ar gyfer Is-Ddeddfwriaeth

**Cefndir**

1. O fis Mai 2007 ymlaen, yn unol â darpariaethau *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006'), Gweinidogion Cymru[1], yn hytrach na Chynulliad Cenedlaethol Cymru, fydd â phwerau i wneud is-ddeddfwriaeth. Gall is-ddeddfwriaeth gael ei wneud ar ffurf offerynnau statudol (fel arfer) ac mewn rhai achosion, ar ffurf cod ymarfer, adroddiadau neu ganllawiau.

2. Yn ei hanfod, bydd bron pob is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i naill ai'r **weithdrefn penderfyniad negyddol** neu **gadarnhaol**.

3. Yn gryno, o dan y **weithdrefn negyddol**, Gweinidogion Cymru sy'n gwneud is-ddeddfwriaeth heb gymeradwyaeth y Cynulliad ond gall y Cynulliad, wedyn, ei gwyrdroi (dirymu). O dan y **weithdrefn gadarnhaol**, rhaid i'r Cynulliad gymeradwyo'r is-ddeddfwriaeth cyn y caiff ei gwneud gan Weinidogion Cymru[2]. Mae rhagor o fanylion am y gweithdrefnau hyn i'w cael isod.

4. Mae'r weithdrefn a ddefnyddir ar gyfer eitem o is-ddeddfwriaeth yn dibynnu ar y Ddeddf wreiddiol, Atodlen 11 i Ddeddf 2006 neu, yn y dyfodol, Mesur Cynulliad. Mae'n debyg y bydd y rhan fwyaf o is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

5. At hyn, mae Rheol Sefydlog 24 yn amlinellu rhai gofynion trefniadol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol neu gadarnhaol.

**Y Weithdrefn Penderfyniad Negyddol**

---

[1] Gall Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol wneud is-ddeddfwriaeth.
[2] Ar achlysuron prin, bydd yn bosibl gwneud is-ddeddfwriaeth gadarnhaol cyn cael cymeradwyaeth ond ni ddaw i rym nes y ceir cymeradwyaeth.

6. Os yw Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i ddirymiad (h.y. penderfyniad negyddol):

(i) caiff yr Offeryn Statudol perthnasol ei wneud yn gyntaf gan Weinidogion Cymru;

(ii) yna caiff ei osod gerbron y Cynulliad (mae'n bosibl ei wneud a'i osod ar yr un diwrnod) a rhaid cynnwys Memorandwm Esboniadol a rhaid i hwnnw gynnwys unrhyw Asesiad o Effaith Reoleiddiol a baratowyd mewn perthynas â'r OS hwnnw[3];

(iii) fel arfer, ni ddylai ddod i rym am o leiaf 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod, oni bai fod y Llywydd wedi cael gwybod gan y Gweinidog perthnasol pam nad yw hyn wedi digwydd;

(iv) cyn pen 40 diwrnod[4] ar ôl gosod yr is-ddeddfwriaeth, gall Aelod gyflwyno cynnig[5] (nad oes modd cynnig gwelliant iddo) i ddirymu'r OS[6].

7. Ni fydd gweithdrefn ar gael sy'n cyfateb i'r weithdrefn weithredol gyflym, felly byddai modd gwneud a gosod Offerynnau Statudol brys a byddent yn gallu dod i rym bron ar unwaith, cyn belled ag y caiff y Llywydd wybod ymlaen llaw fel y nodir ym mharagraff 6(iii) uchod.

8. Yn gyffredinol, byddai'r broses sy'n berthnasol i offerynnau statudol yr un mor berthnasol i unrhyw is-ddeddfwriaeth arall ar ffurf cod ymarfer, adroddiadau neu ganllawiau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol (gyda'r newidiadau priodol).[7]

---

[3] Rheol Sefydlog 24.1

[4] Mae'r cyfnod o 40 diwrnod yn un o'r gofynion statudol sy'n codi o Ddeddf 1946. Dyddiau calendr yw'r 40 diwrnod ond nid ydynt yn cynnwys unrhyw doriad o bedwar diwrnod neu ragor.

[5] Yn nhermau seneddol, caiff cynnig i ddirymu OS ai alw'n "prayer" ar lafar yn Saesneg, ac mae'r ymadrodd "praying against" yn deillio o hyn.

Rheolau Sefydlog 24.2-24.3. Mae Rheol Sefydlog 24.9 yn cynnwys darpariaeth sy'n nodi nad oes modd newid Offerynnau Statudol, gan adlewyrchu darpariaethau Deddf 1946, felly dirymu yw'r unig ddewis.

[7] Rheol Sefydlog 24.13

**Y Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

9. Os yw Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i benderfyniad cadarnhaol, fel arfer:

(i) caiff yr Offeryn Statudol ei osod yn gyntaf gerbron y Cynulliad ar ffurf drafft fel arfer (ni ellir ei wneud nes y bydd y Cynulliad wedi'i gymeradwyo[8]) a rhaid cynnwys Memorandwm Esboniadol a rhaid i hwnnw gynnwys unrhyw Asesiad o Effaith Reoleiddiol a baratowyd mewn perthynas â'r OS hwnnw [9];

(ii) bydd aelod o'r llywodraeth yn cyflwyno cynnig (nad oes modd cynnig gwelliant iddo) yn gofyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r OS [10];

(iii) nid oes modd ystyried cynnig yn cymeradwyo OS mewn cyfarfod llawn nes y bydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth neu unrhyw bwyllgor arall (sydd wedi hysbysu'r llywodraeth o'i fwriad i wneud hynny cyn pen 7 diwrnod ar ôl ei osod) wedi cyflwyno adroddiad ar yr OS drafft neu, nes y bydd 20 diwrnod o leiaf wedi mynd heibio ers ei osod (p'un bynnag yw'r cynharaf) [11].

(iv) os bydd y Cynulliad yn ei gymeradwyo, yna gall Gweinidogion Cymru wneud yr OS.

10. Gan nad oes unrhyw weithdrefn sy'n cyfateb i'r weithdrefn weithredol gyflym, byddai angen trefnu Offerynnau Statudol brys sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol drwy drafodaeth a chytundeb gwleidyddol.

11. Yn gyffredinol, byddai'r broses sy'n berthnasol i offerynnau statudol yr un mor berthnasol i unrhyw is-ddeddfwriaeth arall ar ffurf cod ymarfer, adroddiadau neu ganllawiau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (gyda'r newidiadau priodol).[12]

---

[8] Ar achlysuron prin, bydd yn bosibl gwneud is-ddeddfwriaeth gadarnhaol cyn cael cymeradwyaeth ond ni ddaw i rym nes y ceir cymeradwyaeth.

[9] Rheol Sefydlog 24.1

[10] Rheolau Sefydlog 24.4-5. Mae Rheol Sefydlog 24.9 yn cynnwys darpariaeth nad oes modd diwygio offerynnau Statudol, gan adlewyrchu darpariaethau Deddf 1946, felly'r unig ddewis yw cymeradwyo heb ddiwygiadau neu wrthod cymeradwyo.

[11] Rheol Sefydlog 24.6

[12] Rheol Sefydlog 24.13

**Craffu ar Is-ddeddfwriaeth**

12. Yn y Rheolau Sefydlog newydd, y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yw'r unig bwyllgor sydd â rôl diffiniedig mewn perthynas â chraffu ar is-ddeddfwriaeth a wneir naill ai o dan y weithdrefn negyddol neu gadarnhaol. Ni fydd gan y Pwyllgor Busnes rôl yn y cyswllt hwn bellach (ar wahân i amserlennu cynigion i ddirymu is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y weithdrefn negyddol)

13. Mae Rheol Sefydlog 15 yn egluro cylch gwaith y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn fanwl; yn gyffredinol mae'n golygu ystyried yr agweddau technegol ar yr holl offerynnau statudol neu'r offerynnau statudol drafft ond gall y Pwyllgor hefyd ymgymryd â'r gwaith o graffu ar yr offerynnau hynny o ran polisi (swyddogaeth "nodi rhinweddau") Byddai hyn yn cynnwys ystyried a yw'r ddeddfwriaeth yn gwireddu'r amcanion polisi ac ai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud hynny. Ni fyddai, fodd yn bynnag, yn cael cwestiynu'r amcan polisi ei hun.

*Offerynnau Statudol y Weithdrefn Negyddol*

13. Mewn perthynas ag offerynnau statudol y weithdrefn negyddol, byddai angen i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth gyflwyno adroddiad yn fuan unwaith y byddai'r OS wedi'i osod er mwyn rhoi gwybodaeth i Aelodau i'w cynorthwyo â'r gwaith o benderfynu a ydynt am gyflwyno cynnig i ddirymu'r offeryn ai peidio.

14. Gall pwyllgorau eraill y Cynulliad gyflwyno adroddiad am offerynnau statudol y weithdrefn negyddol. Unwaith eto, byddai angen iddynt gyflwyno adroddiad yn fuan i alluogi'r Aelodau i drafod sylwadau'r pwyllgor wrth benderfynu a ydynt am gyflwyno cynnig i ddirymu'r offeryn ai peidio. Bydd yn bwysig i bwyllgorau gael gwybod am is-ddeddfwriaeth newydd i'w galluogi i drafod a chyflwyno adroddiad am yr Offerynnau Statudol perthnasol mewn da bryd (gan y bydd Pwyllgorau'n gallu penderfynu ar eu hagendâu eu hunain, gallant benderfynu craffu ar Offeryn Statudol yn ystod y cyfnod ymgynghori cynharach). Bydd swyddogion Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn trafod â swyddogion y llywodraeth sut fyddai'r ffordd orau o sicrhau bod y Pwyllgorau yn cael gwybod am unrhyw is-ddeddfwriaeth newydd).

15. Er bod 40 diwrnod ar gael i gyflwyno cynnig i ddirymu OS, dylid nodi y daw OS i rym fel arfer 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Gall hyn felly effeithio ar pryd y bydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth neu unrhyw bwyllgor arall yn penderfynu pryd y dylai gyflwyno adroddiad.

*Offerynnau Statudol y Weithdrefn Gadarnhaol ac Offerynnau Statudol Drafft*

16. Fel y nodir ym mharagraff 9(iii) uchod, nid yw'n bosibl trafod cynnig i gymeradwyo OS mewn cyfarfod llawn nes y bydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth neu unrhyw bwyllgor arall wedi cyflwyno adroddiad ar yr OS drafft, neu, nes y bydd 20 diwrnod o leiaf wedi mynd heibio ers ei osod (p'un bynnag yw'r cynharaf)[13].

14. Pan fo pwyllgor arall heblaw'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn bwriadu cyflwyno adroddiad, rhaid iddo roi gwybod i'r llywodraetho'i fwriad i wneud hynny cyn pen 7 diwrnod ar ôl ei osod. Gall yr aelod hwnnw o'r llywodraeth a'i gosododd (neu aelod o'r llywodraeth a enwebir gan y Prif Weinidog) gymryd rhan yn nhrafodion y pwyllgor ond ni chaiff bleidleisio [14].

15. O gofio y gall y llywodraeth gyflwyno cynnig i gymeradwyo OS neu OS drafft unwaith y bydd 20 diwrnod wedi mynd heibio, bydd yn rhaid i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth neu unrhyw bwyllgor arall (sydd wedi rhoi'r rhybudd 7 diwrnod gofynnol) gyflwyno adroddiad cyn diwedd y cyfnod hwn er mwyn sicrhau y bydd sylwadau'r pwyllgor yn cael ei hystyried yn ystod y ddadl. Unwaith eto, mae hyn yn tanlinellu pa mor bwysig yw hi i'r pwyllgorau fod yn ymwybodol o'r is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei pharatoi er mwyn iddynt fedru cyflwyno adroddiad yn gyflym os bydd angen.

*Darpariaethau trosiannol yn ymwneud ag is-ddeddfwriaeth a wneir rhwng y toriad a'r etholiad*

---

[13] Rheol Sefydlog 24.6
[14] Rheolau Sefydlog 24.7-8.

16. Mae *Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol) 2007* yn cynnwys darpariaeth i unrhyw is-ddeddfwriaeth, a wneir rhwng toriad y Pasg a 3 Mai drwy’r weithdrefn weithredol o dan y rheolau sefydlog presennol, gael ei gosod gerbron y Cynulliad. Bydd hyn yn galluogi’r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth i graffu arni’n ôl-weithredol wedi iddo gael ei sefydlu.

*Cyffredinol*

17. Yn ogystal â hyn, a'r tu allan i’r darpariaethau’n ymwneud â dirymu neu gymeradwyo, ar ôl gwneud OS byddai’n bosibl i bwyllgor ei archwilio unrhyw adeg, wrth gwrs (e.e. i ystyried pa mor effeithiol ydyw ar ôl cyfnod penodol) ac i gyflwyno adroddiad yn argymell gwelliannau i OS. Ni fyddai unrhyw rwymedigaeth ar y llywodraeth, wrth gwrs, i weithredu’r argymhellion. Gallai’r pwyllgor, fodd bynnag, ofyn am bwerau i wneud Mesur (os nad oedd un yn bod eisoes) er mwyn medru ystyried Mesur drafft a fyddai’n gweithredu’r newidiadau. Ni fyddai unrhyw sicrwydd, fodd bynnag, y byddai cynnig i gael Mesur o’r fath yn llwyddo.